

Y Cynllun Ymgynghori Clinigol 5 Mlynedd

Crynodeb Gweithredol

Mae Cynllun Ymgynghori Clinigol y Bwrdd Iechyd yn amlinellu ei ymrwymiad i wella gwasanaethau Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â thri phrif faes: y gallu presennol i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg, camau y gellir gweithredu arnynt i gynyddu'r gallu hwn, ac amserlen ar gyfer y camau gweithredu hyn.

Gan gydnabod heriau'r gorffennol wrth gofnodi sgiliau Cymraeg staff, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu mesurau i symleiddio'r broses hon drwy ei Gofnod Staff Electronig (ESR). Mae cefnogaeth gan y Tîm Tegwch a Chynhwysiant wedi bod yn allweddol wrth feithrin ymwybyddiaeth o'r iaith a diwylliant Cymru ymhlith staff. Drwy gofleidio egwyddorion 'Mwy na Geiriau', mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau y gall cleifion gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol.

Mae prif ffocws y cynllun yn cynnwys:

- Gwellu'r broses o gofrestru sgiliau Cymraeg staff.
- Cydweithio â sefydliadau lleol i hyrwyddo cyfleoedd gyrfu a denu pobl dalentog sy'n siarad Cymraeg.
- Integreiddio'r Gymraeg i brosesau recriwtio.
- Codi ymwybyddiaeth staff am bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd.
- Cynyddu cyfleoedd i gleifion ddefnyddio eu dewis iaith.
- Canolbwyntio ar grwpiau agored i niwed fel plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, a defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

Gofynion Safonau'r Gymraeg

Yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac yn benodol Safon 110, mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi cynllun am bob cyfnod o bum mlynedd, sy'n nodi'r canlynol:

(a) I ba raddau y mae modd i chi gynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;

(b) Y camau y bwriadwch eu cymryd i wella eich gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg;

(c) Amserlen o'r camau yr ydych wedi manylu arnynt yn (b).

Mae'r sefydliad yn cydnabod bod cofnodi sgiliau Cymraeg staff ar ei Gofnod Staff Electronig (ESR) wedi bod yn heriol; fodd bynnag, mae wedi rhoi trefniadau ar waith i wneud y broses yn haws i staff gofrestru eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r Tîm Tegwch a Chynhwysiant wedi parhau i gefnogi staff i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwyllian t Cymru.

Mae'r cynnig gweithredol a amlinellir yn 'Mwy na Geiriau' wrth wraidd yr holl waith a wneir gan y Bwrdd Iechyd, sy'n sicrhau bod cleifion yn cael cynnig gwasanaeth cyfrwng Cymraeg heb orfod gofyn. Drwy gydweithio â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg a Dysgu Cymraeg Caerdydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei allu i gynnig cyfleoedd dysgu'r Gymraeg i'n staff.

Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gwella'r broses o gofrestru sgiliau Cymraeg ein staff.
- Gweithio gyda sefydliadau lleol (e.e. ysgolion a chynghorau) i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa o fewn y Bwrdd Iechyd a denu pobl dalentog i'r sefydliad sydd â sgiliau Cymraeg.
- Prif ffrydio'r Gymraeg i'r broses recriwtio.
- Gwella ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd.
- Gwella'r cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio eu dewis iaith drwy weithredu prosesau, monitro a rhannu arfer da.

Yn hynny o beth, byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar wella'n gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn y gwasanaethau hynny y mae 'grwpiau agored i niwed' yn eu defnyddio, fel y'u nodwyd yn y strategaeth Mwy na Geiriau.

Dyma'r grwpiau hyn:

- plant a phobl ifanc
- pobl hŷn
- pobl ag anableddau dysgu
- defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl

- pobl sy'n byw gyda dementia
- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc
- pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith

Y Safon:

Safon 110:

“Rhaid ichi gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd sy'n nodi - (a) i ba raddau y gallwch gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg; (b) y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eich gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg; (c) amserlen ar gyfer y camau gweithredu yr ydych wedi manylu arnynt yn (b).

Dair blynedd ar ôl cyhoeddi cynllun yn unol â safon 110, ac ar ddiwedd cyfnod o 5 mlynedd cynllun rhaid ichi - (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi cydymffurfio â'r cynllun; a (b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw o fewn 6 mis.

Diffiniad o Ymgynghoriad Clinigol

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 yn diffinio ymgynghoriad clinigol fel *“rhyngweithiad darpariaeth iechyd rhwng un neu fwy o unigolion a chorff”*. Gyda'r diffiniad hwn mewn golwg, cynhelir ymgynghoriadau clinigol lluosog ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro bob dydd a ddarperir gan ein staff clinigol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol perthynol.

Strategaethau a Chynlluniau Presennol:

Mae'r Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio i'n holl gynlluniau hirdymor er mwyn sicrhau ein bod yn gallu bodloni anghenion defnyd dwyr ein gwasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu trosfwaol a phenodol a fydd yn helpu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gynyddu ein gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg. Mae gan y Bwrdd Iechyd y cynlluniau canlynol ar wait h, sy'n canolbwyntio ar brofiad cleifion o ran cydraddoldeb, tegwch i bawb, a llywio gwelliannau i wasanaethau:

- Polisi Tegwch, Cynhwysiant a Hawliau Dynol
- Cynllun Pobl a Diwylliant

- Y cynllun cenedlaethol 3 blynedd ar gyfer y Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau
- Strategaeth Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol
- Cynllun Tymor Canolig Integredig
- Strategaeth Dementia
- Siarter Iechyd Plant a Phobl Ifanc

Cysylltiadau â deddfwriaeth

- Mesur Safonau'r Gymraeg 2011
- Deddf Mesur Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Cynllun Gweithredu

Amlinellir isod ein hamcanion allweddol wrth i ni weithio tuag at ddarparu'r 'cynnig rhagweithiol' a gallu cynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg:

Amcan 1: Gwella sgiliau Cymraeg y staff

- Sicrhau bod 85% o staff yn cofrestru eu sgiliau Cymraeg ar y Cofnod Staff Electronig. Cyflawnir hyn drwy fonitro parhaus, archwiliadau rheolaidd ac ymgyrchoedd mewnol.
- Parhau i gynnig cyfleoedd dysgu Cymraeg, gan gynnwys Cwrs Croeso, Cwrs Codi Hyder, a Chwrs Blasu.
- Cynyddu nifer y staff sydd wedi cofrestru ar gyfer sgiliau Cymraeg Lefel 1 erbyn diwedd oes y cynllun.
- Dathlu staff sy'n dysgu Cymraeg neu'n ei defnyddio'n effeithiol gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Amcan 2: Recriwtio Sgiliau Cymraeg

- Cyflwyno'r broses asesu newydd ar gyfer sgiliau Cymraeg yn ystod y broses recriwtio.
- Gweithredu'r broses recriwtio newydd ar gyfer y Gymraeg.
- Monitro gofynion y Gymraeg wrth hysbysebu am swyddi newydd a gwag.
- Datblygu deunydd hyrwyddo ar-lein ar yrfaeod yn y GIG a mynychu ffeiriau gyrfaoedd.
- Ar y cyd â sefydliadau lleol (Mentrau Cymraeg lleol, colegau a chynghorau) mynychu digwyddiadau i hyrwyddo gyrfaoedd yn y GIG.

Amcan 3: Codi ymwybyddiaeth ac addysgu staff am bwysigrwydd y Gymraeg drwy Ymgyrch “*Meddwl Cymraeg – Think Welsh*” y Bwrdd Iechyd.

- Codi ymwybyddiaeth o egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' fel bod adrannau mewn gwell sefyllfa i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chynyddu ymwybyddiaeth ddiwylliannol o'r iaith ymhlith staff a defnyddwyr gwasanaeth.
- Annog cyfranogiad mewn mentrau Cymraeg i feithrin agwedd gynhwysol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog.
- Cynyddu aelodaeth Rhwyd-iaith, rhwydwaith staff Cymraeg y Bwrdd Iechyd.
- Trefnu digwyddiadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gofal iechyd.

Amcan 4: Hyrwyddo, cynnig a chofnodi dewis iaith cleifion.

- Arweinwyr gwasanaethau Cymraeg i fonitro gweithdrefnau cyfredol ar gyfer cofnodi dewis iaith cleifion ac i weithio gyda staff yn eu meysydd priodol i nodi unrhyw welliannau.
- Monitro Systemau Rheoli Cleifion i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gofnodi a'i nodi i adrannau clinigol wrth drefnu apwyntiadau cleifion.
- Gweithio gyda sefydliadau eraill GIG Cymru i rannu enghreifftiau o arfer gorau
- Casglu a dadansoddi adborth o ran profiad cleifion ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg.
- Datblygu mecanweithiau ar gyfer cofnodi nifer yr ymgynghoriadau clinigol a gynhelir yn Gymraeg (*gan gynnwys y rhai a hwylusir gan staff cymorth sy'n siarad Cymraeg*).

Monitro'r asesiad i'r cynllun gweithredu

Cynllun Gweithredu Byrddau Clinigol

Bydd y Byrddau Clinigol yn integreiddio'r Cynllun Ymgynghori Clinigol i gynllun gweithredu eu Byrddau Clinigol.

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Bydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn monitro ac yn ceisio sicrwydd gan bob maes ynghylch gweithredu'r Cynllun Ymgynghori Clinigol.

Arweinwyr y Gymraeg yn y Bwrdd Clinigol

Arweinwyr Gwasanaethau Cymraeg i fonitro cydymffurfiaeth â Safon 110. Bydd Byrddau Clinigol yn adrodd yn ôl ar gynnydd y cynllun yn ystod oes y cynllun 5 mlynedd. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r cyhoedd drwy Adroddiad Iaith Gymraeg blynyddol y Bwrdd Iechyd.

Camau gweithredu: 2025 - 2030

Amcan 1 <i>Asesu Sgiliau Cymraeg</i>	Camau gweithredu	Amserlen
<p>Monitro data ESR i sicrhau bod sgiliau Cymraeg yn cael eu cofnodi i gyflawni cydymffurfiaeth gyffredinol o 85%.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i annog staff i gofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR. Gwneud asesiad gwaelodlin o allu'r Bwrdd lechyd i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg. Dathlu llwyddiant ledled y Bwrdd lechyd. 	<ul style="list-style-type: none"> 58.75% erbyn Mehefin 2025 67.5% erbyn mis Medi 2025 76.25% erbyn Rhagfyr 2025 85% erbyn mis Mawrth 2026
<p>Mae nifer y staff sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn cael ei fonitro ac yn parhau i gynyddu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Asesu faint o staff o leoliadau / adrannau gwahanol sy'n cwblhau hyfforddiant. Nodi staff sydd â sgiliau Cymraeg lefel 3-5 a chynnig cyfleoedd i gymryd rhan yn y Cwrs Codi Hyder. Nodi staff sydd heb gofrestru unrhyw sgiliau Cymraeg a chynnig cyfleoedd iddynt ymgymryd â Chwrs Croeso a Chwrs Blasu. 32.5% o staff yn cofrestru eu sgiliau Cymraeg rhwng Lefel 1 a Lefel 5. 	<ul style="list-style-type: none"> 40 aelod o staff i gymryd rhan yn y Cwrs Codi Hyder bob blwyddyn 150 aelod o staff i gymryd rhan yn y Cwrs Croeso bob blwyddyn 32.5% o staff i fod â sgiliau Cymraeg Lefel 1-5 erbyn Mawrth 2026
<p>Amcan 2 <i>Recriwtio pobl sydd â sgiliau Cymraeg</i></p>	<p>Pwyntiau Gweithredu</p>	

<p>Gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol yn ardal Caerdydd a'r Fro i hyrwyddo gyrfaeodd yn y GIG.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nodi ysgolion a mynychu eu ffeiriau neu gyfarfodydd gyrfaeodd 	<ul style="list-style-type: none"> • Mynychu o leiaf 4 digwyddiad gyrfaeodd gydag ysgolion yn yr ardal leol gan gynnwys mynychu'r ffair yrfaeodd flynyddol a drefnir gan Gyngor Dinas Caerdydd
<p>Datblygu deunydd hyrwyddo ar-lein ar yrfaeodd yn y GIG a mynychu ffeiriau gyrfaeodd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Y Tîm Tegwch a Chynhwysiant, Adnoddau Pobl, a Darlunio Meddygol i ddatblygu gwybodaeth gyrfaeodd wedi'i hanelu at y rhai sydd â sgiliau Cymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd adolygiad blynyddol o gynnydd am gyfnod y cynllun tan fis Tachwedd 2029.
<p>Ar y cyd â sefydliadau lleol (Mentrau Cymraeg lleol, colegau a chynghorau) mynychu digwyddiadau i hyrwyddo gyrfaeodd posibl yn y GIG.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithio drwy Fforwm Iaith Caerdydd a'r Fro i fynychu digwyddiadau (Tafwyl, yr Eisteddfod ac ati) i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd adolygiad blynyddol o gynnydd am gyfnod y cynllun tan fis Tachwedd 2029.
<p>Cynyddu'r defnydd o'r offeryn asesu Sgiliau Cymraeg drwy recriwtio rheolwyr</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Tîm Pobl a Diwylliant i sicrhau bod rheolwyr recriwtio yn defnyddio'r offeryn ac yn gweithredu ei argymhellion drwy fonitro. 	<ul style="list-style-type: none"> • 50% o swyddi yn asesu sgiliau Cymraeg erbyn mis Mawrth 2026 • 75% o swyddi yn asesu sgiliau Cymraeg erbyn mis Mawrth 2027 • 100% o swyddi yn asesu sgiliau Cymraeg erbyn mis Mawrth 2028

Monitro gofynion y Gymraeg wrth hysbysebu am swyddi newydd a gwag.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda Gwasanaethau a Rennir i asesu faint o swyddi newydd neu wag oedd yn gofyn am y Gymraeg fel sgil hanfodol. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd adolygiad blynyddol o gynnydd am gyfnod y cynllun tan fis Tachwedd 2029.
Amcan 3: Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol a phwysigrwydd y Gymraeg o dan yr ymgyrch “ <i>Meddwl Cymraeg</i> ”.	Camau gweithredu	Amserlen
Codi ymwybyddiaeth o egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' er mwyn annog mwy o ymgynghoriadau clinigol trwy gyfrwng y Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> Codi ymwybyddiaeth ar ddiwrnodau hyrwyddo (Diwrnod Hawliau'r Gymraeg, Diwrnod Shwmae ac ati) o bwysigrwydd y cynnig rhagweithiol Codi ymwybyddiaeth yn ystod diwrnodau hyfforddi gorfodol ac ymsefydlu corfforaethol. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd adolygiad blynyddol o gynnydd am gyfnod y cynllun tan fis Tachwedd 2029.
Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a chynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofal iechyd drwy'r Gymraeg.		<ul style="list-style-type: none"> Bydd adolygiad blynyddol o gynnydd am gyfnod y cynllun tan fis Tachwedd 2029.
Amcan 4 <i>Monitro'r cynnydd</i>	Camau gweithredu	Amserlen
Arweinwyr gwasanaethau Cymraeg i fonitro gweithdrefnau cyfredol ar gyfer cofnodi dewis iaith cleifion ac i weithio gyda staff yn eu meysydd priodol i nodi unrhyw welliannau.	Byrddau Clinigol a Gwasanaeth i fonitro a rhoi adborth i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ynghylch sut mae timau lleol yn cofnodi dewis iaith cleifion, adborth ar arfer da a phrosesau effeithiol.	<ul style="list-style-type: none"> Adborth parhaus rheolaidd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Monitro Systemau Rheoli Cleifion o fewn Diagnosteg Glinigol a Therapïau i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gofnodi a'i amlygu i adrannau clinigol wrth drefnu apwyntiadau cleifion.	Diagnosteg Glinigol a Therapïau i adrodd yn ôl ar y Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar faint o gleifion a defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cofrestru eu dewis iaith.	<ul style="list-style-type: none"> Adborth parhaus rheolaidd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant

<p>Gweithio gyda sefydliadau eraill GIG Cymru i rannu enghreifftiau o arfer gorau wrth gofnodi dewis iaith a defnyddio'r wybodaeth hon i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg.</p>	<p>Cydweithio â sefydliadau GIG Cymru i rannu arfer a gwybodaeth.</p> <p>Mewn cydweithrediad ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sefydlu gwefan i rannu arfer da ac adnoddau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Parhaus
<p>Casglu a dadansoddi adborth o ran profiad cleifion ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg.</p>	<p>Tîm Profiad y Claf i nodi unrhyw broblemau gyda'r arolwg profiad y claf neu bryderon a dderbynnir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Parhaus